



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Ionawr 2019

Diweddariad olaf: 5 Mehefin 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle> am y fersiwn diweddaraf.

Darganfyddwch pam ei bod hi'n bwysig defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a beth rydyn ni'n ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Pam ei bod hi'n bwysig defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle?

Manteision

Drwy wella sgiliau iaith Gymraeg, gwybodaeth a dealltwriaeth y gweithlu o ddwyieithrwydd, rydyn ni'n gallu cynnig gwasanaethau gofal gwell i bawb.

Mae manteision defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle'n cynnwys:

- osgoi'r perygl o ynysu unigolion drwy fethu â darparu gwasanaethau yn yr iaith maen nhw'n ei ffafrio
- osgoi cwynion posibl i Gomisiynydd y Gymraeg am wasanaethau Cymraeg gwael neu ddiffygiol
- sicrhau safonau cydraddoldeb drwy ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg
- asesu anghenion unigol drwy gyfathrebu â defnyddwyr y gwasanaeth yn eu iaith dewisol neu iaith frodorol
- hyrwyddo enw da eich sefydliad trwy ddarparu gwasanaeth dwyieithog
- cynnig gofal o safon da, sy'n cefnogi canlyniadau positif i'r unigolion rydych chi'n gweithio gyda nhw, sy'n dod o wahanol gefndiroedd.

Polisi a deddfwriaeth iaith Gymraeg

Yn dilyn deddfwriaeth a datblygiadau mewn polisi iaith, mae angen i ddarparwyr gwasanaethau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod ganddyn nhw drefniadau staffio cymesur, priodol a digonol ar waith i ddarparu gwasanaeth gofal dwyieithog.

Mae deddfwriaeth bellach wedi sefydlu Safonau Iaith ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Safonau Iaith hyn yr un mor berthnasol i gyrff, asiantaethau, cwmnïau a sefydliadau trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau gofal ar ran cyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol.

Mae deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i wasanaethau Cymraeg mewn gofal cymdeithasol:

- fod o'r un safon ac ar gael mor rhwydd a phrydlon â gwasanaethau Saesneg
- beidio tybio mai Saesneg yw'r iaith ddiodyn wrth ddarparu eu gwasanaethau
- sicrhau nad ydy siaradwyr Cymraeg yn gorfod gofyn am wasanaeth yn Gymraeg.

Dyma rai dolenni defnyddiol am safonau, cynllunio ac ymwybyddiaeth Cymraeg. Mae gwybodaeth hefyd am hawliau, cynlluniau iaith Gymraeg ac arweiniad i gefnogi darparu gwasanaeth dwyieithog.

- [Cymraeg Llywodraeth Cymru](#)
- [Arolygiaeth Gofal Cymru \(CIW\)](#)
- [Comisiynydd y Cymraeg](#)
- [laith.cymru](#).

Beth yw 'Mwy na geiriau'?

'Mwy na geiriau' yw [Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#).

Ei nod yw

- sicrhau bod anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu
- darparu gwasanaeth Cymraeg i'r rhai sydd ei angen
- dangos bod iaith yn chwarae rhan bwysig o ran ansawdd gofal ac nad yw'n cael ei ystyried yn "ychwanegiad".

Dyma ddull rhagweithiol o ran dewis ac angen iaith yng Nghymru, sy'n rhoi'r cyfrifoldeb dros sicrhau gwasanaethau Cymraeg ar ddarparwyr gwasanaethau, yn hytrach na'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Mae gan y rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ran i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Beth yw'r 'cynnig rhagweithiol'?

Ystyr 'cynnig rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai yr un gwasanaethau Cymraeg fod ar gael i ddefnyddwyr ag sydd ar gael yn Saesneg.

Mae cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol yn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu deall a'u diwallu, a bod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal yn gallu dibynnu ar gael eu trin â'r parch ac urddas maen nhw'n ei haeddu.

Gall peidio â chynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol arwain at beryglu urddas a pharch pobl.

Sut ydw i'n gallu gwneud cynnig rhagweithiol?

[Pecyn Gwybodaeth Gwireddu'r 'Cynnig Rhagweithiol' - Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol](#)

PDF 1MB

[Mwy na geiriau: Poster y Cynnig Rhagweithiol](#)

PDF 1MB

[Mwy na geiriau: poster y pethau bychain](#)

PDF 941KB

Gadewch i ni glywed gan weithwyr ac unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau

Mae iaith yn llawer mwy na dull ar gyfer cyfathrebu. Pan fydd rhywun yn siarad yn ei iaith ei hun, mae'n haws iddyn nhw fynegi eu teimladau a disgrifio eu hemosiynau. Yn yr adran hon rydym yn clywed gan ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a gofal plant, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Yn y clip hwn rydym yn clywed gan weithwyr allweddol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn Antur Waunfawr, sy'n sôn am pam mae siarad Cymraeg yn bwysig iddyn nhw, a pha wahaniaeth mae hyn yn ei wneud.

Stori Keneuoe

Dyma Keneuoe yn siarad am bwysigrwydd y Gymraeg yn ei swydd hi.

Gweld trawsgrifiad

1

00:00:08,433 --> 00:00:10,077

Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn

2

00:00:10,077 --> 00:00:11,729

darparu gwasanaeth gofal

3

00:00:11,729 --> 00:00:13,760

drwy gyfrwng y Gymraeg

4

00:00:13,760 --> 00:00:16,350

os yw pobl yn dewis gwneud hynny.

5

00:00:16,350 --> 00:00:19,930

Mae lle rydyn ni'n byw a gweithio

6

00:00:19,930 --> 00:00:20,930

yng Ngwynedd

7

00:00:20,930 --> 00:00:23,494

yn lle Cymreig iawn

8

00:00:23,494 --> 00:00:25,700

lle mae'r rhan fwyaf o bobl

9

00:00:25,700 --> 00:00:28,304

rydyn ni'n edrych ar eu hôl a gofalu amdanynt

10

00:00:28,304 --> 00:00:32,000

wedi byw eu bywydau nhw

11

00:00:32,000 --> 00:00:33,639

drwy gyfrwng y Gymraeg

12

00:00:33,639 --> 00:00:35,315

ers blynyddoedd.

13

00:00:36,050 --> 00:00:38,588

Dyma sy'n naturiol iddyn nhw.

14

00:00:38,588 --> 00:00:44,921

Felly dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn

15

00:00:44,921 --> 00:00:46,476

gallu helpu nhw

16

00:00:46,476 --> 00:00:48,309

i gario ymlaen efo'u bywydau

17

00:00:48,309 --> 00:00:49,760

fel maen nhw'n gwybod

18

00:00:49,760 --> 00:00:50,955

a'r ffordd maen nhw'n gyfarwydd â hi.

19

00:00:51,163 --> 00:00:53,828

Fe ddaeth Keneuoe drosodd i fyw yn y Bala

20

00:00:53,828 --> 00:00:55,418

yn ôl yn 1997

21

00:00:55,418 --> 00:00:58,430

a hithau'n gwbl ddi-gymraeg.

22

00:00:58,430 --> 00:01:00,070

Yn ei swydd bresennol

23

00:01:00,070 --> 00:01:02,059

mae hi'n ysbrydoliaeth

24

00:01:02,059 --> 00:01:04,520

ac mae wedi parhau i ddatblygu

25

00:01:04,520 --> 00:01:08,267

a chadw i ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith.

26

00:01:09,065 --> 00:01:10,979

Dim ond pum mlynedd yn ôl

27

00:01:10,979 --> 00:01:13,493

ymunodd Keneuoe â'r maes gofal

28

00:01:13,493 --> 00:01:14,562

ac yn ei geiriau ei hun

29

00:01:14,562 --> 00:01:15,909

mae'n difaru ei bod heb ddod

30

00:01:15,909 --> 00:01:17,603

llawer iawn yn gynt.

31

00:01:18,262 --> 00:01:19,921

Maen nhw'n gwybod y galla i siarad Cymraeg

32

00:01:19,921 --> 00:01:22,748

ac maen nhw wedi setlo i lawr yn dda

33

00:01:22,748 --> 00:01:24,439

achos fy mod i'n rhoi amser iddyn nhw,

34

00:01:24,439 --> 00:01:26,679

eistedd lawr i siarad efo nhw

35

00:01:26,679 --> 00:01:34,820

ac mae hyn wedi eu galluogi i fynegi

36

00:01:34,820 --> 00:01:37,197

unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw

37

00:01:37,197 --> 00:01:41,229

neu dim ond rhannu hanes

38

00:01:41,229 --> 00:01:45,029

a chael sgwrs fwy manwl efo nhw

39

00:01:45,029 --> 00:01:47,429

trwy'u hiaith nhw,

40

00:01:47,429 --> 00:01:49,289

trwy'r iaith maen nhw wedi dewis.

41

00:01:49,289 --> 00:01:52,498

Felly mae hynny'n bwysig yn fy marn i.

42

00:01:52,498 --> 00:01:54,370

Dwi'n falch fy mod i'n

43

00:01:54,370 --> 00:01:55,240

gwneud gwahaniaeth.

Straeon Morfydd a Will

Mae Morfydd a Will yn siarad am pa mor bwysig ydy hi iddyn nhw gallu siarad Cymraeg yn eu cartref gofal.

Gweld trawsgrifiad

0:04

Fues i fyw yng Ngharmel am dros 50 years a wedyn yn Cilgwyn oedd fy nechra i.

0:12

Da iawn, a da chi'n Plas Gwilym rŵan.

0:15

Yndw dwi'n Plas Gwilym rŵan.

0:16

Ac mi o'n i adra yn Cilgwyn a dwi adra yn fama hefyd cofiwch.

0:21

Yndw.

0:22

Siarad Cymraeg ydych chi erioed?

0:23

Cymraeg, ia.

0:25

Ddweda i wrthyh chi, South Walian oedd mam a fy nhad o Benygroes 'ma.

0:30

Es i i'r ysgol yn bedair oed a mi ges i slap ar fy llaw am siarad Cymraeg.

0:40

A siarad Cymraeg mam o'n i,

0:43

"tefe", "dan staer" am 'dan y grisiau' ond doeddwn i'm yn gwybod bo fi'n rong.

0:52

Ac mi es i adra a dweud a dyma fy nhad yn dweud, "Ar lle ges di slap?"

0:57

"Ar fy llaw yn fama."

1:00

A dyma fo'n gwylltio.

1:01

Dyma fo'n troi atom ni, oeddem ni'n bedwar o blant, a mam yna.

1:06

"Does 'na ddim gair o Gymraeg yn y tŷ yma o hyn allan."

1:12

"Da chi'n siarad Saesneg i gyd."

1:16

Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd o'n ei feddwl a dweud y gwir, yn bedair oed.

1:19

Doeddwn i ddim i fod mae'n siŵr nag oeddwn.

1:22

A dyma fo'n dweud "Allan efo'r plant mi gewch chi siarad Cymraeg fel 'da chi'n medru ac fel

1:28

"ydych chi eisiau, ond mae'n rhaid i Morfydd gael dysgu Cymraeg iawn."

1:34

"Dydi hi ddim yn cael slap eto."

1:37

Ac mi wnes i chwarae efo'r plant ac mi godais i o ar fy union.

1:41

Ac ydych chi'n siarad Cymraeg efo pawb bob dydd yn fama?

1:44

Yndw, yndw.

1:46

Cofiwch, os oes 'na rhywun Saesneg yna ac eisiau i mi ateb, mi ydw i'n gwneud ond

1:53

mi fysa'n well gen i o'n Gymraeg.

1:56

Mi fyswn i yn siarad Saesneg, dwi'n medru, achos mi drodd Mam i Saesneg adeg hynny o

2:04

iaith y 'south'.

2:06

Wedyn mae Saesneg ar dop y list yn y ffordd dwi'n medru, ond mae Cymraeg yn ei guro.

2:14

Ond dwi ddim yn gwybod, os fyswn i'n fama a bob man yn Saesneg, dwi ddim yn meddwl byswn i'n

2:22

gallu aros yn hir.

2:24

Na.

2:25

fysa'n dda i ddim byd i mi.

2:28

Ydych chi'n gwybod pan ydych chi'n mynd i weld Dr Britto rŵan a'ch bod chi'n gwybod

2:31

bod chi am orfod siarad Saesneg efo fo.

2:33

Sut ydych chi'n teimlo am hynny?

2:37

Wel, mae gen i ryddid yn does.

2:42

Mi fedrai i ddweud yn Saesneg wrtho, "I'm sorry, I can't speak English, only that."

2:50

Ac mi fysa fo yn nôl un o'r genod i siarad efo fi ac iddi hi ddweud wrtho be o'n i'n

2:56

ei ddweud.

2:58

Ond dydw i ddim angen hynny, mi fedrai siarad Saesneg dros fy hun.

3:04

Ond, dwi ddim yn gwybod, dydy o ddim yn gartrefol.

3:11

I ni'r Cymry, tydi o ddim.

3:14

Ydych chi'n teimlo'n fwy hyderus yn Gymraeg?

3:17

Wel, yndw.

3:19

Y peth ydy, pan da chi'n Gymraeg da chi'n teimlo, yn enwedig yn ganol Cymru,

3:25

"O, dwi adra."

3:28

"Mae gen i'r hawl i siarad fel fyinnai".

3:31

Da chi'n gweld, mae o'n dod yn ei ôl i mi be wnaeth y teacher yna, rhoi slap i mi am

3:37

mod i heb siarad yn iawn.

3:40

Mewn ffordd dwi wedi bod yn ofalus erioed sut ydw i'n siarad.

3:46

Mae'n rhaid i'r geiriau fod yn iawn.

3:54

Ydych chi'n siarad Cymraeg yn fama bob dydd, Will?

3:56

Bob dydd, dim byd arall ond Cymraeg.

3:59

Sut ydych chi'n teimlo am y Gymraeg, Will?

4:03

Wel, dyna'r iaith ges i fy ngeni efo.

4:05

Fy mam a nhad, taid a nain.

4:11

Cymraeg ydw i yn bob dim.

4:15

Well gen i siarad Cymraeg na Saesneg.

4:17

Ydych chi'n meddwl bysa fo'n gwneud gwahaniaeth, Will, i'r ffordd ydych chi'n byw a'ch gofal

4:22

chi os fysech chi ddim yn gallu siarad Cymraeg bob dydd efo pobl?

4:27

Bysa, mae'n siŵr.

4:30

Fyswn i ddim yn teimlo'n hapus.

4:34

Dwi'n hapus yn fama, Cymraeg ydy pawb yma.

4:37

Pawb, staff a residents.

4:43

Mae'n gwneud lot o wahaniaeth.

4:46

Lot fawr.

4:47

Ym mha ffordd?

4:49

Wel, dyna ydy fy iaith i - Cymraeg.

4:51

Dwi'n mynd i language arall pan dwi'n siarad Saesneg.

4:56

A dydw i ddim yn gwybod sut i roi pethau drosodd o Gymraeg i Saesneg yn aml.

5:01

Reit.

5:02

Ydych chi'n gwybod be' dwi'n feddwl?

5:04

Ia.

5:06

Os ydw i eisiau dweud rhywbeth yn Gymraeg mi fedrai ei ddweud o, ond os ydw i eisiau

5:08

dweud o mewn Saesneg yr un peth, dwi'n gorfod meddwl.

5:12

Ydych chi dal yn medru siarad Saesneg?

5:15

Yndw tad.

5:16

Dim Saesneg da, ond mi fedrai gomiwnicatio.

5:23

Ydych chi'n gwybod pan wnaethoch chi ddewis dod i fyw i Blas Gwilym, oedd o'n bwysig i

5:27

chi fod o'n gartref Cymraeg?

5:30

Oedd tad, pwysig iawn.

Stori Mari: Mwy na geiriau - More than just words

Ar ôl colli ei thad, Mari Emlyn sy'n siarad yn onest am eu profiad gofal. Mae'r ffilm wedi ei gynhyrchu gan Theatr Bara Caws i Llywodraeth Cymru.

Gweld trawsgrifiad

0:01

Pan gaeth Dad diagnosis o Multiple Systems Atrophy nôl yn 2011,

0:07

mi gaethon byd ni wir ei droi wyneb i waered.

0:10

Mi ro'n ni'n gwybod i ni fynd i golli o, a byd na nhw'n neb yn gallu gwneud.

0:15

Roedd celloedd yr ymennydd sy'n rheoli ei system nerfol yn marw ac yn cau i lawr.

0:20

Oedd yn gyflwr prin iawn, ac yn un erchyll o greulon.

0:25

Wedi i wneud ymchwil i'r cyflwr, oeddem ni'n gwybod i ryw raddau be'i ddisgwyl ar hyd taith.

0:31

Mae'r cerdded yn dod yn anodd.

0:32

Felly roedd rhaid cerdded efo ffon, yna efo ffrâm,

0:36

ac yn y diwedd doedd ei modd i symud o gwbl heb gael cymorth hoist ac yn y blaen.

0:40

Mi roedd e'n gaeth yn ei gorff ei hun, heb allu gwneud dim drosto fo ei hun.

0:45

Yn fuan iawn yn y gwaeledd ni oedd cyfathrebu'n anodd.

0:49

Roedd y cyflwr yn wneud yn amhosib iddo siarad.

0:52

Roedd e'n cymryd ei holl egni i siarad efo ni, ac er bod ni'n barod am hynny,

0:57

roedd e'n hefyd yn erchyll o anodd i weld ond brwydrau cyfathrebu efo ni.

1:01

Un peth wnaethon ni erioed o ystyried ydy bydden ni'n cael anhawsterau ieithyddol.

1:07

Pan ddych chi'n siarad yn eich mamiaith dych chi'n meddwl yn yr un iaith,

1:12

ond mynd yn dechrau'n siarad efo rhywun sy ddim yn medru'r iaith

1:16

yna dych chi'n meddwl yn Gymraeg yn eich pen ac yn cyfieithu ar y pryd i Saesneg yn eich pen cyn ymateb,

1:23

mae'r proses hon yn anodd i berson sy'n holliach heb sôn am rywun sy'n mewn gwaeledd.

1:28

Pan bod y doctoriaid, nyrsys a gofalwyr Saesneg yn dod i weld a thrin Dad

1:33

o'n i'n gallu gweld yn syth roedd hi'n cymryd gymaint dwywaith o egni o,

1:37

a fo yn aml iawn yn torri i lawr a chrio, ac mi o'n teimlo'n mor rhwystredig.

1:43

A hwn yn peri gymaint o loes sy'n ei weld teulu'n gwybod fod hynny jyst yn ychwanegu lot mawr o boen iddo fo,

1:50

a ni mewn cyfnod eisoes mor erchyll ohono.

1:55

Er ein bod ni'n sylweddoli nad oes modd i fod meddyg, nyrs a gofalwr fedru siarad Cymraeg,

2:02

oedd ymateb ambell un i rwystredigaeth Dad a ninnau fel teulu'n cwbl yn annerbyniol.

2:09

Fe faswn nhw'n ystyried na chydabod pa mor anodd oedd hyn.

2:15

Roedd hynny yn creu di hon hynod o drist.

2:18

Cwbl gefynnu yn ei wneud wrth geisio ei dyddiau, wythnosau, misoedd ôl ei fywyd e mor hawdd â phosib

2:27

ac oedd gweld yn torri calon oherwydd nad oedd yn gallu cyfathrebu'n hawdd, ond yn fwy na hynny dim ond yn gallu

2:34

gwneud hynny yn yr unig iaith roedd o wedi siarad erioed.

2:38

Pan daeth hi'n amhosib i ni ddallt o gwbl oedd e'n rhaid dod o hyd i beiriant fyddai'n siarad drosto fo.

2:47

Y bwriad oedd mewnbynnu brawddegau ac atebion oedden ni'n meddwl bydda Dad yn ei defnyddio, a'r cwbl byddai'n rhaid i Dad

2:57

wneud oedd pwysu frawddeg a fyddai'r peiriant yn ateb drosto fo.

3:02

Roedd meddwl am hyn yn dorcalonnus, ond o leia', oedd yn galluogi cyfathrebu efo fo.

3:09

Ond yn fwy buan iawn yn y proses o ddod o hyd i beiriant wnaeth yn amlwg

3:16

nad oedd modd cael un oedd yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

3:19

Oedd hyn yn ergyd mawr i ni. Roedden unrhyw un neb i yn union ond wedi siarad Cymraeg yn yr aelwyd erioed

3:29

i ddechrau cyfathrebu mewn iaith estron.

3:33

Roedd ei wyth o wyrion ar y pryd ddim yn gallu siarad Saesneg.

3:39

Felly roedd yn drist iawn. Oedd y salwch yn dwyn popeth oedd e arno fo yn raddol ac i ni ddwyn o oddi wrthon ni,

3:49

ac yn dwyn ein hiaith ni.

3:52

Beth yn brifo fwy na dim oedd nad y swyddogion oedd yn darparu'r adnodd yn deall be' oedd y broblem nai malu o chwaith

4:01

ar yr effaith oedd hyn y gael ar Dad, ar Dad a'r gweddill ohonon ni.

4:08

Y fam wedi rhoi ei holl i sicrhau nad oedd Dad wedi cael unrhyw fath o gam i fyny'r pwynt yma,

4:14

ac roedd hi'n benderfynol o wneud siŵr bod modd cael adnodd oedd yn galluogi ni cyfathrebu trwy'r cyfrwng y Gymraeg.

4:23

Fuon ni'n frwydr am fisoedd. Oedd e'n ychwanegu gymaint o loes a blinder mewn cyfnod oedd eisoes mor anodd.

4:34

Llwyddon ni yn y diwedd sicrhau meddalwedd oedd yn Gymraeg,

4:38

ac er bod ni'n hynod falch roeddwn ni'n hefyd yn drist ac yn flin fod yn rhaid i ni gwffio am rywbeth fel fe fod ar gael.

4:48

Mae gannom i gyd yr hawl i siarad y famiaith yn enwedig ar ein gwely angau.

4:56

Dw i ddim yn disgwyl i bob meddyg, nyrs, gofalydd fynd allan a dysgu'r Gymraeg,

5:02

ond efallai mae'r peth pwysica' ydych fod eich rili'n dallt ac yn ystyried ei fod yn hollbwysig i'r un sydd yn profi gwaeledd

5:12

a'r teulu a'r ffrindiau'n ehangach.

5:15

Allwn i gyfleu faint o wahaniaeth oedd e'n wneud i Dad pan oedd e'n clywed y Gymraeg.

5:22

Mi oeddem ni'n hynod ffodus fod y meddyg y teulu oedd yn dod i weld Dad yn wythnosol,

5:29

ac oedd e'n egluro'r broses diwedd bywyd iddo fo.

5:35

Oedd e wedi dysgu'r iaith ac er nad er yn gwbl rugl,

5:39

oedd e'n gallu cynnal sgwrs ac yn gwneud i dad yn llacio, ac yna fe fod yn troi yn Saesneg i egluro'r proses.

5:47

Allwn i ddim dweud wrthoch chi pa mor amhrisiadwy oedd hyn i Dad ac i ni na.

5:54

Plîs, os dych chi'n fyth yn dod ar draws y sefyllfa yma, byddwch yn sensitif,

6:00

hyd yn oed os dych chi ond yn gallu llwyddo dweud ond bach gair yn y Gymraeg mae o wir, wir yn werthfawr i unigolyn.

6:08

Mae fy Nhad farw 2019 wedi blynyddoedd o frwydro,

6:14

ond dyn ni'n trysori'r ffaith iddo fo wedi cael marw fel y Cymro fe oedd erioed.

I wyllo'r fideo gydag isdeitlau Cymraeg, cliciwch ar yr opsiwn 'Settings' ar waelod y fideo a dewisiwch ideitlau Cymraeg.

Stori Wyn

Mae Wyn yn esbonio pa mor bwysig ydy hi i ddeall bod rhai pobl yn ei chael hi'n haws i esbonio pethau yn eu mamiaith.

- [Gwyliwch fideo Wyn ar dudalen YouTube Llywodraeth Cymru](#)

Sut i asesu sgiliau iaith Gymraeg

Asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg eich staff

Mae'r adnodd yma yn ffordd syml o asesu sgiliau iaith yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, ysgrifennu, siarad â dealltwriaeth) y mae eich staff yn gallu ei wneud drwy'r Gymraeg.

O fewn yr adran yma fe welwch Fframwaith Sgiliau Iaith sydd yn fodd i chi fod yn glir ynglŷn â'r union lefel o sgiliau y cyfeiriwch atynt wrth asesu, recriwtio a chynllunio i ddefnyddio sgiliau cyfathrebu eich staff.

[Asesu a chofnodi sgiliau iaith eich staff](#)

Dolen

[Asesu a chofnodi sgiliau iaith eich staff - fersiwn PDF](#)

PDF 232KB

Mae'r adnodd 'Sgiliau Iaith Gymraeg yn eich gweithlu - eu defnyddio'n effeithiol' wedi ei gynllunio i gefnogi 'Mwy na Geiriau' trwy helpu cyflogwyr a rheolwyr nodi pa lefel sgiliau Cymraeg sydd gan eu gweithwyr.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys hunanasesiad sy'n gweithio allan sgiliau pobl wrth siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg o'r sylfaenol i'r rhugl. Mae pob lefel yn bwysig ac mae mawr ei angen yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

[Sgiliau iaith Gymraeg eich gweithlu - eu defnyddio yn effeithiol \(Fersiwn Lawn\)](#)

PDF 1MB

[Sgiliau iaith Gymraeg eich gweithlu - eu defnyddio yn effeithiol \(Canllaw Cyflym\)](#)

PDF 332KB

Rydyn ni hefyd wedi creu pecyn ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n seiliedig ar egwyddorion 'Mwy na geiriau'.

[Sgiliau iaith Gymraeg yng ngweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant](#)

PDF 519KB

Mae'r pecynnau hyn yn eich helpu chi i wneud defnydd effeithiol o sgiliau iaith, fel y byddech ag unrhyw sgil arall yn y gweithle, er budd a lles pobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau.

Modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae'r modiwl hwn ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr gofal cymdeithasol neu blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n dymuno dysgu mwy am yr iaith Gymraeg, diwylliant a gweithio'n ddwyieithog.

Mae'r modiwl yn cynnwys gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd a beth mae'r gyfraith yn ei ddweud. Mae'n edrych ar yr hyn y mae'n rhaid i ni ei

wneud a pham.

Mae'r modiwl hefyd yn edrych ar ymarferoldeb gweithio'n ddwyieithog a beth mae hyn yn ei olygu i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'r hyn y gallwch ei wneud i wella profiadau unigolion neu blant sy'n derbyn gofal a chymorth.

Bydd y modiwl yn cymryd tua 30 munud i'w gwblhau ac mae'n cyfri tuag at eich ddatblygiad proffesiynol parhaus os ydych chi wedi cofrestru gyda ni (un awr).

Bydd pawb sy'n ei gwblhau yn derbyn tystysgrif.

- [Dechrau'r modiwl](#)

Adnodd hyfforddi i gefnogi gweithio dwyieithog

Mae ein adnodd 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn cefnogi hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant ac ar gyfer pobl sydd mewn addysg bellach neu addysg uwch.

Nod yr adnoddau ydy:

- helpu'r hyfforddwr i ddysgu ymwybyddiaeth iaith wrth annog trafodaethau ar y ffordd orau i weithio'n ddwyieithog
- addysgu a grymuso dysgwyr a gweithwyr ar sut i gynnig gwasanaeth gwerthfawr i ddefnyddwyr gwasanaeth, gan sicrhau bod iaith bob amser yn ystyriaeth ganolog
- eu ddefnyddio fel rhan o hyfforddiant 'mewn swydd' neu sefydlu ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r adnodd hwn ar ffurf PowerPoint gyda nodiadau hyfforddwr i gefnogi pôb sleid. [Cysylltwch â ni](#) os na allwch chi lawrlwytho'r cyflwyniad hwn.

[Urddas, iaith a gofal - cyflwyniad hyfforddwr](#)

PPTX 162MB

[Urddas, iaith a gofal - dogfen cyflwyno](#)

DOCX 424KB

Mwy o adnoddau i'ch helpu

Gwiriwr lefel iaith Cymraeg

Gall gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru bellach ddefnyddio [rhaglen ar-lein am ddim](#) i asesu eu sgiliau Cymraeg.

Rydyn ni wedi cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu 'Gwiriwr Lefel' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Mae'r Gwiriwr Lefel yn asesiad ar-lein i'ch helpu i ddarganfod lefel eich Cymraeg o ran sgiliau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu. Rydych chi'n cwblhau cyfres o asesiadau ar-lein, ac mae eich canlyniadau yn nodi lefel eich Cymraeg - o lefel mynediad hyd at hyfedredd.

Gall unrhyw un sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ddefnyddio'r Gwiriwr Lefel i asesu eu gallu yn y Gymraeg. Mae am ddim i'w ddefnyddio ac ar gael ar ffonau symudol, tabledi a chyfrifiaduron.

[Gofal Cymdeithasol Cymru: Lefelau Iaith](#)

Dolen

Ar ôl cwblhau'r asesiad, y cam nesaf i rywun sydd â diddordeb mewn gloywi eu Cymraeg yw cofrestru ar un o'n cyrsiau Camau. Mae'r rhain wedi eu creu yn arbennig ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, maent yn rhad ac am ddim ac yn cynnig dysgu hyblyg ar-lein.

Gallwch ddarganfod mwy am ein cyrsiau Camau ar wefan Dysgu Cymraeg. Mae dau gwrs gwahanol ar gael, ar gyfer gogledd a de Cymru.

- [Camau - fersiwn gogledd Cymru](#)
- [Camau - fersiwn de Cymru.](#)

Apiau ar gyfer hyfforddiant

Mae [Cymraeg Gwaith](#) yn darparu cwrs ar-lein am ddim ar gyfer dechreuwyr sydd wedi'i deilwra ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal. Mae'n ymdrin â phynciau fel sut i gael sgwrs wyneb yn wyneb cychwynnol yn Gymraeg â'r bobl rydych chi'n gofalu amdanyn nhw.

Mae'r cwrs [Camau | Dysgu Cymraeg](#) yn gwrs hunan-astudiaeth, sy'n addas i ddechreuwyr ac sydd wedi'i hariannu'n llawn gan y Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol.

Mae [Sgiliaith \(Grwp Llandrillo Menai\)](#) yn cynnig cyngor ymarferol ar arfer da, hyfforddiant staff ac adnoddau, i wella sgiliau a phrofiadau dwyieithog dysgwyr.

Mae'r [Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) yn rhoi ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig astudio cyrsiau addysg uwch trwy gyfrwng Cymraeg. Mae ganddyn nhw adnoddau i gefnogi dysgwyr sydd â'r cymwysterau CCPLD a HSC newydd ac maen nhw'n cynnig cyrsiau 'Prentis-iaith' i brentisiaid sydd ag ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Maen nhw'n galluogi prentisiaid i gwblhau rhan o'u cymhwyster HSC / CCPLD yn Gymraeg.

Mae cynllun [Iaith Gwaith](#) a'r bathodyn swigen oren yn dangos eich bod yn siarad Cymraeg.

Clwb Cwtsh

Mae Clwb Cwtsh yn adnodd sy'n cyflwyno geirfa Cymraeg i rieni a gofalwyr allu defnyddio gyda phlant.

- [Gwyliwch fideo am Clwb Cwtsh](#) ar sianel YouTube Mudiad Meithrin.

Apiau ar gyfer dysgu

Dyma rai Apiau Cymraeg atyniadol ar gyfer dysgu, sydd ar gael ar IOS ac Android.

- [Beginners Welsh - wedi'i greu gan Brifysgol Aberystwyth](#)
- [Ap Gofalu Trwy'r Gymraeg.](#)

Cyfieithu, prawfddarllen a therminoleg

Os ydych chi'n chwilio am wasanaeth cyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd, [ewch i wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru](#) i gael rhestr a'u manylion.

Dyma rai geiriaduron ar-lein Cymraeg i'ch helpu chi i ddysgu gwella'ch geirfa:

- [Gweiadur](#)
- [Geiriadur yr Academi](#)
- [Geiriadur Prifysgol Cymru](#)
- [Geiriadur - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant](#)
- [Y Termiadur Addysg.](#)

Mae [Termau](#) yn borth terminoleg Saesneg i Gymraeg a Chymraeg i Saesneg.

Pecyn meddalwedd gyda dwy raglen yw [Cysgliad](#). Mae'n cynnwys Cysill, sy'n nodi ac yn cywiro gwallau iaith yn eich dogfennau Cymraeg, a Cysgair sy'n eiriadur electronig.

Mae [Helo Blod](#) yn wasanaeth cyfieithu a gwirio testun.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi casglu llawer o dermau sydd wedi cael eu defnyddio'n gyffredin yn ystod y pandemig ac wedi cynhyrchu geiriadur bach o [dermau coronafeirws a ddefnyddir amlaf yn Gymraeg](#). Nod yr adnodd yw helpu siaradwyr i siarad ac ysgrifennu am y clefyd yn eu mamiaith.

Mentrau iaith

[Mentrau iaith Cymru \(MIC\)](#) yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith 22 o Mentrau iaith lleol ledled Cymru.

Eu rôl yw codi ymwybyddiaeth o'r iaith a diwylliant Cymraeg, trwy annog pobl i ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r iaith a gallu ymarfer eu sgiliau iaith mewn amgylchedd cyfeillgar a chymdeithasol yn y gymuned.

Yr iaith Gymraeg - ymchwil, technoleg, dysgu a chefnogaeth

[Canolfan Bedwyr](#) yw canolfan gwasanaethau, ymchwil a thechnoleg Cymraeg Prifysgol Bangor.

Mae [datblygu sgiliau iaith Cymraeg](#) yn helpu i ddatblygu hyder myfyrwyr, staff a chyflogwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Crëwyd adnoddau [enwau lleoedd](#) i gynorthwyo i ddarganfod a gwirio bodolaeth enwau Cymraeg ar gyfer lleoedd Saesneg ac i'r gwrthwyneb.

Mae [Technoleg Ileferydd](#) yn dechnoleg iaith lleferydd sydd â'r gallu i greu lleferydd dynol ac ymateb iddo (testun i leferydd a'i hadnabod)

Hyfforddiant

Sefydlwyd [Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg](#) i ddarparu hyfforddiant Cymraeg gyda chyfoeth o hyfforddiant ar gael ar-lein, cyrsiau byr, apiau a llawer mwy.

- [1000 o adnoddau digidol](#) (pump lefel)
- Dysgwch Gymraeg mewn dim ond pum munud y dydd am ddim gyda [Duolingo](#)
- [Dywedwch rywbeth yn Gymraeg](#)
- Fideos [YouTube](#)
- Rhaglen hyblyg wedi'i hariannu sydd wedi'i chynllunio i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle yw [Work Welsh](#)
- [Cefnogaeth i Gyflogwyr](#) – sut i archwilio sgiliau, cyrsiau sydd ar gael, canlyniadau disgwylidig ac ati.

Sefydliadau arall

Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn darparu profiadau chwarae a dysgu i blant o'u genedigaeth hyd at oedran ysgol.

- Gwyliwch y fideo '[Pwy yw Mudiad Meithrin](#)' ar ei sianel YouTube i ddarganfod mwy.

Tudalen YouTube Mudiad Meithrin

Mae [tudalen YouTube Mudiad Meithrin](#) yn cynnwys amryw o adnoddau Cymraeg.

Bwletin rhithwir ar gyfer adnoddau Cymraeg

Mae [hysbysfwrdd rhithwir adnoddau Cymraeg ar gael ar Padlet.com](#) sy'n cynnwys adnoddau hyfforddi, adnoddau i ddysgwyr, gweithgareddau, apiau, cerddoriaeth, swyddi a llawer iawn mwy i'ch cefnogi chi i ddysgu a datblygu eich sgiliau Cymraeg.

Adnoddau addysgol

[OpenLearn Cymru: Cartref dysgu dwyieithog, am ddim yng Nghymru](#) – adnodd i unrhyw un sy'n dymuno gwybod mwy am gymdeithas a diwylliant Cymru ac mae'n dwyn ynghyd gasgliad o adnoddau addysgol am ddim sy'n berthnasol i Gymru.

Cysylltu â ni

Os oes gennych chi gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).